


Canllaw byr ar

HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG AM BEIDIO Â MYNYCHU'R YSGOL

COLLI YSGOL, COLLI ALLAN | MISS SCHOOL, MISS OUT



Dan Reoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, mae gan Awdurdodau Lleol bŵer i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn hytrach na chymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhieni/gofalwyr oherwydd absenoldebau o'r ysgol.

Caiff y broses ei chyflwyno ym mis Medi 2014, ac mae'r daflen yma'n disgrifio ym mha amgylchiadau y bydd Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu cyflwyno.

Beth yw Hysbysiad Cosb Benodedig?

Dyma ddirwy sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer absenoldebau heb ganiatâd o'r ysgol. Does dim angen ymddangos o flaen y llys a dydy'r Hysbysiad Cosb Benodedig ddim yn cael ei gofnodi ar gofnod troseddol.

Bydd rhieni yn talu Hysbysiad Cosb Benodedig yn hytrach na chael eu herlyn yn Llys yr Ynadon.

Beth yw absenoldeb heb ganiatâd?

Dyma absenoldeb o'r ysgol dydy'r Pennaeth ddim yn ei gyfiawnhau neu'n ei ystyried yn dderbyniol. (Nodwch, DIM OND pennaeth ysgol eich plentyn sy'n gallu awdurdodi absenoldeb disgybl.)

Pwy sy'n cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig?

Yr awdurdod lleol sy'n eu cyflwyno, ar gais penaethiaid.

Pryd maen nhw'n cael eu defnyddio?

- Pan fo disgybl yn absennol heb ganiatâd o 10 sesiwn, o leiaf, yn ystod y tymor presennol (does dim rhaid iddyn nhw fod yn 10 sesiwn olynol. Nodwch fod diwrnod ysgol wedi'i rannu'n ddwy sesiwn - sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn);
- Mewn ymateb i'r disgybl yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgol o hyd, hynny yw, ar ôl y sesiwn gofrestru. Eto, caiff Hysbysiad Cosb Benodedig ei gyflwyno pan fo'r disgybl yn hwyr o leiaf 10 gwaith yn ystod y tymor presennol;
- Ar gyfer absenoldeb heb ganiatâd i fynd ar wyliau. Mae'n bosibl y bydd raid i rieni dalu Hysbysiad Cosb Benodedig am fynd ar wyliau gyda'r teulu yn ystod tymor yr ysgol;
- Os nad yw'r rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr yn cysylltu â'r ysgol neu'r awdurdod lleol ynghylch absenoldeb y plentyn;
- Os ydy disgybl yn dod at sylw'r heddlu yn ystod oriau ysgol yn rheolaidd, ac yn absennol o'r ysgol heb reswm teilwng, bydd yr awdurdod yn gofyn i'r Awdurdod Lleol gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig.

Cyn cyhoeddi Hysbysiad Cosb, byddwch chi'n derbyn rhybudd ysgrifenedig sy'n amlinellu pa mor ddifrifol yw absenoldebau eich plentyn, a'r posibilrwydd y byddwch chi'n derbyn Hysbysiad Cosb. Bydd cyfle gyda'r disgybl i wella'i bresenoldeb dros gyfnod o 15 diwrnod. Os dydy'r disgybl ddim yn absennol heb ganiatâd O GWBL yn ystod y 15 diwrnod yma, chaiff Hysbysiad Cosb Benodedig ddim ei gyflwyno.

Dydy'r cyfnod rhybudd yma ddim yn berthnasol i Hysbysiad Cosb Benodedig sy'n cael ei gyflwyno o ganlyniad i absenoldeb heb ganiatâd i fynd ar wyliau. Does dim cyfyngiad i nifer yr hysbysiadau cosb y mae modd eu cyflwyno.

Rydw i wedi derbyn Hysbysiad Rhybudd. Sut allai i osgoi gorfod talu'r Hysbysiad Cosb? Beth ddylwn i ei wneud?

- Sicrhewch fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol bob dydd ac yn cyrraedd yn brydlon;
- Os ydy'ch plentyn yn sâl, gwnewch yn siwr eich bod yn cysylltu â'r ysgol yn syth bin er mwyn esbonio'r amgylchiadau;
- Peidiwch â threfnu gwyliau yn ystod tymor yr ysgol.

Faint yw'r ddirwy?

£60 os ydych chi'n talu cyn pen 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad. Mae'r swm yn codi i £120 ar ôl hynny, a chyn pen 42 o dderbyn yr hysbysiad. Penderfyniad yr awdurdod lleol yw cyflwyno hysbysiad cosb benodedig i naill ai un o'r rhieni/gofalwyr, neu'r ddau ohonyn nhw.

Sut mae talu?

Caiff yr Hysbysiad Cosb ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf i'ch cartref. Byddwn ni'n cynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae talu.

Beth fydd yn digwydd os dydw i ddim yn ei dalu?

Os fyddwch chi ddim yn talu'r gosb yn llawn cyn pen y cyfnod hiraf posibl sy'n cael ei ganiatáu (sef 42 diwrnod o gyflwyno'r Hysbysiad Cosb Benodedig), bydd raid i'r awdurdod lleol gychwyn gweithdrefnau cyfreithiol yn eich erbyn am drosedd dan Adran 444 (1) Deddf Addysg 1996. Hynny yw, am beidio â sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'n bosibl y byddwch yn ymddangos o flaen Llys yr Ynadon o ganlyniad i hyn, ac yn derbyn dirwy o hyd at £1,000 (y rhiant, y plentyn).

Oes modd i mi gyflwyno âpel?

Nac oes. Does dim hawl statudol i gyflwyno âpel. Unwaith i Hysbysiad Cosb Benodedig gael ei gyflwyno, mae modd ei dynnu yn ôl dim ond os oes modd dangos y cafodd ei gyflwyno ar gam.

Alla i gael fy erlyn hyd yn oed os ydw i'n talu'r Hysbysiad Cosb Benodedig?

Allwch chi ddim cael eich erlyn am yr un cyfnod o absenoldeb sydd wedi'i nodi yn yr Hysbysiad Cosb Benodedig. Serch hynny, mae'n bosibl y cewch eich erlyn am gyfnodau diweddarach o absenoldebau sydd ddim wedi'u hawdurdodi. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol.

Pam fod mynychu'r ysgol yn bwysig?

- Mae presenoldeb da yn cynyddu cyflawniad a chyrhaeddiad
- Mae presenoldeb da yn gwella cyfleoedd
- Mae presenoldeb da yn cefnogi plant a phobl ifainc ac yn eu diogelu
- Mae mynychu'r ysgol yn lleihau'r peryglon yn ymwneud ag absenoldeb

CADWCH HYN MEWN COF

Byddai'n well gyda'r AWDURDOD LLEOL weithio gyda rhieni/gofalwyr i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael, yn hytrach na chymryd camau gorfodi yn eu herbyn, fel cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig neu fynd â nhw i'r llys.

Am ragor o gymorth neu gyngor yn eich ardal chi, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Bro Morgannwg

Ffôn: 01446 709180

E-bost: ewsrf@valeofglamorgan.gov.uk

Caerdydd

Ffôn: 029 2062 9800

E-bost: ewsreferrals@cardiff.gov.uk

Merthyr Tudful

Ffôn: 01685 724681

E-bost: educationwelfare@merthyr.gov.uk

Pen-y-bont ar Ogwr

Ffôn: 01656 815276

E-bost: ewsteam@bridgend.gov.uk

Rhondda Cynon Taf

Ffôn: 01443 744298

E-bost: presenoldeballes@rhondda-cynon-taf.gov.uk